

## Bwletin Coetir Glastir 3

18 Mawrth 2016

### Y Diweddaraf am Creu Coetir Glastir

O'r 91 sydd wedi Mynegi Diddordeb, mae Llywodraeth Cymru wedi cynnig 49 o gcontractau Creu Coetir Glastir (GWC), ac o'r rheini, mae 41 wedi'u llofnodi. Mae CNC wedi dilysu 49 o'r 51 o gynlluniau Creu Coetir Glastir sydd wedi'u hanfon at Lywodraeth Cymru. Os oes gennych gwestiynau am gcontractau GWC, cysylltwch â Llywodraeth Cymru trwy'ch cyfrif RPW Ar-lein neu drwy ffonio 0300 063 5004.

**Pwysig:** Er mwyn i gynlluniau GWC gydymffurfio â rheolau UKFS a Glastir, mae angen clywed tystiolaeth cynllunwyr GWC. Er enghraifft, os gwelir bod ardal plannu newydd yn un o gynefinoedd sensitif CNC ac nad oes digon o dystiolaeth wedi'i darparu (ar ffurf ffotograffau clir gyda geodagiau) i brofi nad yw'r ardal yn gynefin sensitif, ni fydd modd dilysu cynllun GWC.

Bydd ail gyfnod Mynegi Diddordeb Creu Coetir Glastir yn dechrau ar **30 Mawrth 2016** a daw i ben ar **29 Ebrill 2016**. Ar gyfer y rheini sy'n gallu cwblhau'r Gwaith Cyfalaf erbyn **31 Mawrth 2017** y mae'r cyfnod hwn.

### Y Diweddaraf am Adfer Coetir Glastir

Yn ystod cyfnod ymgeisio cyntaf Adfer Coetir Glastir, Mynegwyd Diddordeb gan 42. Ers hynny, gyda rhai wedi'u tynnu'n ôl a'u gwrthod, mae 26 o gcontractau wedi'u cynnig ac o'r rheini, mae 25 wedi'u llofnodi.

Daeth 25 Mynegiant Diddordeb i law yn yr ail gyfnod. Cynigiwyd 20 o gcontractau ac mae 16 wedi'u llofnodi.

Bydd trydydd cyfnod Mynegi Diddordeb Adfer Coetir Glastir yn dechrau ar **30 Mawrth 2016** ac yn cau **29 Ebrill 2016**. Ar gyfer y rheini sy'n gallu cwblhau'r Gwaith Cyfalaf erbyn **31 Mawrth 2017** y mae'r cyfnod hwn.



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government



# Glastir



## Y Diweddraf am Glastir – Rheoli Coetir

Ar hyn o bryd, mae gan Lywodraeth Cymru 268 o gontractau Coetir Glastir.

Nid oes bwriad ar hyn o bryd i ddechrau cyfnod Mynegi Diddordeb arall ar gyfer y cynllun Rheoli Coetir Glastir.



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

## Hawlio Gwaith Cyfalaf Coetir Glastir

Mae Gwaith Cyfalaf Glastir Ar-lein bellach ar agor ichi hawlio Gwaith Cyfalaf y tri chynllun Coetir Glastir arno – rhaid cwblhau a hawlio gwaith cyfalaf plannu a ffensio newydd erbyn **30 Ebrill 2016**. Bydd angen hawlio grantiau premiwm a chynnal Creu Coetir Glastir bob blwyddyn ar y Ffurflen Cais Sengl.

## Hyfforddiant Creu Coetir Glastir

Caiff sesiynau hyfforddi GWC eu cynnal yn ystod mis Ebrill a disgwylir i holl gynllunwyr GWC fynd i un sesiwn. Bydd yr hyfforddiant yn delio â phroblemau a chwestiynau cyffredin a godwyd yn y cyfnod Mynegi Diddordeb cyntaf. Er enghraifft, gallai pynciau hyfforddi gynnwys cynefinoedd sensitif CNC, dalgylchoedd sensitif i asid, tyfu amrywiaeth o goed, barnau EIA, ymgynghoriadau WAT a chofrestru tir gyda Llywodraeth Cymru.

Bydd Llywodraeth Cymru'n rhoi mwy o fanylion unwaith y bydd wedi penderfynu ar leoliadau a dyddiadau.

## Y Diweddraf am Fapiau Cyfleoedd Lle Creu Coetir Glastir 'Lle'

Ymgyfarwyddwch â map cyfleoedd Creu Coetir Glastir. Fe welwch y map ar wefan Lle Llywodraeth Cymru. Mae canllaw'n cael ei sgrifennu i gyd-fynd â'r map er mwyn esbonio i'r defnyddiwr sut mae'r map yn gweithio. Bydd y cyfyngiadau a'r sensitifeddau ym Map Lle y GWC yn helpu ymgeiswyr i asesu addasrwydd ardal blannu newydd.

[LleMapCyfleoeddCreuCoetirGlastir](#)

**CYNGOR DA:** Er mwyn gwneud yn siŵr eich bod yn gwybod am bob safle sensitif mewn ardal blannu newydd, defnyddiwch y symbol mesur sgwâr yng nghornel chwith uchaf y sgrin a dewiswch 'create new area measurement'. Dewiswch y teclyn hwn i dynnu amlinell o gwmpas y cynnig plannu newydd ac wrth glicio 'enter', bydd blwch yn ymddangos ar gyfer yr ardal sydd wedi'i thynnu. Bydd llinell o destun o fewn y bocs sy'n dweud "click here to view the points of interest this area intersects". Ar ôl clicio hwn, dangosir rhestr o'r ardaloedd sensitif o fewn yr ardal rydych wedi'i thynnu.

## Barn Asesu Effeithiau Amgylcheddol (EIA)

Ar gyfer cyfnod Mynegi Diddordeb Gorffennaf 2015, daeth 47 o farnau EIA i law tîm Rheoliadau Coedwigoedd CNC iddyn nhw eu hystyried. Mae'r cyfan bellach wedi'u prosesu.

Gall ymgeisydd ofyn am farn EIA ar gyfer ardal blannu newydd unrhyw bryd, hyd yn oed os yw cyfnod Mynegi Diddordeb y GWC wedi cau. Ond, rhaid bod gennych **fwriad pendant** i blannu coed yn y pum mlynedd nesaf – dim ond am bum mlynedd ar ôl dyddiad llythyr CNC y mae'r penderfyniad yn para. Cewch fwy o wybodaeth ar wefan CNC:

<https://naturalresources.wales/forestry/tree-felling-and-other-regulations/environmental-impact-assessment-for-forestry-activity/glastir-eia-quick-guide>.

Dylech gyflwyno ffurflen barn EIA at [forestregulations@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:forestregulations@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk). Mae'n bwysig nodi'r cyfeirnod grid cywir (ac nid rhif y cae a roddir gan Lywodraeth Cymru) a llenwi'r holl flychau ar y ffurflen. Fel arall, bydd yn rhaid dychwelyd barn EIA i'r ymgeisydd. Ar safleoedd plannu newydd mwy cymhleth, bydd angen gwybodaeth ychwanegol fel arolygon ecolegol ac ymatebion i ymgynghoriadau i'n helpu i wneud penderfyniad ynghylch barn Asesu Effaith Amgylcheddol (EIA).

Bydd tîm Rheoliadau Coedwigoedd yn ymgynghori ar SoDdGAoedd a lleiniau clustogi SoDdGAoedd. Os na chafwyd caniatâd SoDdGA ar gyfer yr ardal plannu newydd, neu ran ohoni, mae'n annhebygol y bydd y cynllun plannu newydd yn pasio cam dilysu GWC a bydd angen tynnu barn EIA yn ôl.

## Ymgynghori â'r Ymddiriedolaeth Archeolegol

Cafwyd ymatebion i'r ymgynghoriad gan Ymddiriedolaethau Archeolegol Cymru ar holl gynlluniau GWC. Mae Llywodraeth Cymru'n cwrdd â'r Ymddiriedolaethau i drafod cyfnod Mynegi Diddordeb nesaf GWC. Rhaid ymgynghori â'r Ymddiriedolaethau yn unol â safon yr UKFS sy'n dweud y dylai camau gael eu cymryd i sicrhau bod nodweddion hanesyddol, y gallai coedwigaeth gael effaith andwyol arnyn nhw, yn hysbys a'u bod yn cael eu hasesu fesul safle, ar sail cyngor gwasanaethau amgylcheddol lleol.

## Datganiad y Rhanddeiliaid

Yn unol â'r UKFS, rhaid amgáu datganiad gan randdeiliaid yn Adran 6 Cynllun Rheoli'r GWC. Dylai gynnwys manylion cymdogion, defnyddwyr a chynghorau cymuned a allai ddefnyddio'r ardal plannu newydd. Os ydy'r ardal plannu newydd mewn lle anghysbell, bydd angen ichi esbonio pam nad oes rhanddeiliaid. Fe welwch isod enghraifft o ddatganiad da a llawn gwybodaeth gan randdeiliad:



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

*“Dyma goetir bychan sy’n adlewyrchu natur y dirwedd o goetir cymysg gyda gelltydd (coedlannau) a pherthi. Caiff y gelltydd eu plannu ar dir isel. Fyddan nhw ddim yn rhan amlwg o’r dirwedd nac yn amharu ar olygfeydd cymdogion. Mae’r holl dir yn cael ei reoli’n fewnol, heb effeithio ar ffermwyr eraill. Mae perchennog y tir wedi rhoi gwybod i’w gymdogion am ei gynlluniau ac nid yw wedi cael unrhyw ymateb negyddol.”*



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

## Tir agored CROW

Os oes mynediad agored i’r ardal plannu newydd, darllenwch y cyfarwyddyd ar fynediad agored. Trowch at fap cyfleoedd Lle y GWC am ragor o wybodaeth a gwefan CNC.

<https://naturalresources.wales/media/5598/open-access-and-commons-guidance-for-glastir-woodland-creation.pdf>.

Os caniateir mynediad agored, rhaid wrth ddatganiad byr yn Adran 6 cynllun GWC. Isod, fe welwch enghraifft o ddatganiad mynediad agored da:

*“Mae’r ddwy ardal blannu arfaethedig ar dir mynediad agored CROW. Mae llwybr cyhoeddus i’r de o’r ardaloedd plannu ac felly mae’n annhebygol iawn y bydd llawer o bobl am ddefnyddio’r ardal blannu. Er mwyn caniatáu i bobl ddefnyddio’r ardaloedd, darperir camfa ym mhen deheuol pob parcel ac un arall ym mhen pellaf pob parcel. Caiff coridor 4m o led ei adael heb ei blannu rhwng camfeydd y ddwy ardal.”*

## Dalgylchoedd sensitif i asid

Os ydych yn plannu’ch coed mewn Dalgylch Sensitif i Asid sy’n ‘methu’ neu sydd ‘mewn perygl’ (fe gewch chi’r wybodaeth hon ar fap cyfleoedd Lle Creu Coetir Glastir) ac sydd tros y trothwyon, bydd angen i’r ymgeisydd ofyn i’r tîm Rheoliadau Coedwigoedd CNC a yw dros 30% o’r dalgylch o dan goed. Os ydyw, bydd angen arweiniad ar yr ymgeisydd gan CNC ynghylch casglu samplau dŵr i Asesu Llwythi Critigol. Darllenwch y canllaw arferion da a’r canllaw gweithredu yn yr adran Sensitif i Asid ar wefan CNC am ragor o wybodaeth.

<https://naturalresources.wales/forestry/woodlands-and-the-environment/acid-sensitive-catchments>.

## Rhagor o arweiniad o ran tyfu amrywiaeth o goed

Cymerwch amser i edrych ar yr arweiniad ar dyfu mwy o amrywiaeth o goed i gryfhau’r tir rhag hinsawdd sy’n newid, er enghraifft y Gedrwydden Goch (gweler y dudalen nesaf) yng nghategori Creu Coetir Glastir - Coetir Cymysg Gwell (Gwaith Cyfalaf Coetir 801).

## Y Gedrwydden Goch (RC) - *Thuja plicata* (Richard Carrick)



O'r rhywogaethau 'amgen' o goed sydd ar gael i goedwigwyr Cymru, y Gedrwydden Goch efallai sydd â'r potensial mwyaf i gael ei defnyddio'n amlach. Mae hanes hir o blannu cedrwydd coch yng Nghymru ar amrywiaeth o safleoedd ac er bod gwahaniaethau yn y cnwd, mae arolygon diweddar a thystiolaeth gyd-ddigwyddiadol o sawl ffynhonnell yn awgrymu y dylem blannu mwy o'r coed hyn yng Nghymru.

Am ragor o wybodaeth am y goeden hon a nifer o rywogaethau eraill, ewch i wefan CNC:  
<http://naturalresources.wales/forestry/planning-for-the-future/tree-species-choice>

## Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Pren

Cafodd y cynllun hwn ei lansio ar 11 Chwefror 2016 gan y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd. Mae'r grant yn darparu arian ar gyfer buddsoddi cyfalaf all ychwanegu at werth coedwigoedd trwy gynnal gweithgareddau rheoli coetiroedd, cynaeafu coed a phrosesu pren.

<http://gov.wales/topics/environmentcountryside/farmingandcountryside/cap/ruraldevelopment/wales-rural-development-programme-2014-2020/timber-business-investment-scheme>.